Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | Dydd Iau, 14 Chwefror 2013 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | dcc_admindenbighshire.gov.com.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 22 CHWEFROR 2013** am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys, dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11eg Ionawr 2013 (copi’n amgaeëdig).

**5 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Cydnabod presenoldeb aelodau’r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**6 HYFFORDDIANT AR GYFER CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 11 - 14)

Derbyn adroddiad er gwybodaeth (copi’n amgaeëdig) yn rhoi manylion i Aelodau’r Pwyllgor ar y sesiwn hyfforddi a drefnwyd ar gyfer Cadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned mewn sgiliau cadeirio, a drefnwyd ar gyfer 16eg Mai 2013.

**7 LLYTHYR GWEINIDOGOL AR Y FFRAMWAITH MOESEGOL** (Tudalennau 15 - 22)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi’n amgaeëdig) yn cyflwyno i’r Pwyllgor Lythyr Gweinidogol ar y Fframwaith Moesegol.

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu ar gyfer 10:00am ar 12fed Ebrill 2013 yn Ystafell Gynhadledd 1, Tŷ Nant, Prestatyn.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**9 COD YMARFER – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 23 - 24)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeëdig) yn rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Y Parch. Wayne Roberts, Ian Trigger (Cadeirydd), Ms Margaret Medley a/ac Mrs Paula White

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Bill Cowie
Y Cynghorydd Colin Hughes

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Conference Room, Ty Nant, Prestatyn, Dydd Gwener, 11 Ionawr 2013 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Aelodau Annibynnol Ms Margaret Medley, y Parchedig Wayne Roberts a Mr Ian Trigger (Cadeirydd), Cynghorydd Cymuned David Jones, a Sir Cynghorwyr Bill Cowie a Colin Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Dirprwy Swyddog Monitro (LJ) a'r Swyddog Gwasanaethau Democratig (RAH).

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mrs Paula White a'r Swyddog Monitro, Gary Williams.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Ni fynegwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol na niweidiol.

**3 MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar ddydd Gwener, Tachwedd 30$^{ain}$ 2012 ac fe'u cymeradwywyd yn gofnod cywir. Roedd y pwyllgor am gymeradwyo clerc y cofnodion am gynhyrchu cyfrif cywir a chynhwysfawr o'r cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 30$^{ain}$ 2012 yn gofnod cywir.*

**5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Gwahoddwyd aelodau'r pwyllgor i adborthi o gyfarfodydd cynghorau sir, tref a chymuned yr oedden nhw wedi eu mynychu'n ddiweddar ac fe fanteisiodd aelodau ar y cyfle i gynnig crynodeb o ba mor effeithiol yr oedd eu cynghorau cymuned unigol yn gweithredu.

Dywedodd y Cynghorydd Bill Cowie ei fod yn aelod o Gyngor Dinas Llanelwy a chrybwyllodd fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn dda iawn bob amser, gyda chlerc ardderchog. Nododd y Cynghorydd Colin Hughes fod cyfarfodydd Cyngor Cymuned Henllan yn dda, yn gyfeillgar ac yn drefnus, a bod cyfarfodydd Cyngor Tref Dinbych yn cynnwys dadleuon ardderchog ac roedd yno glerc da iawn hefyd. Dywedodd y Cynghorydd David Jones fod aelodau Cyngor Cymuned Llanferres i gyd yn ffrindiau ond bod y cyfarfodydd yn strwythuredig ac yn gweithredu'n effeithiol, a bod yna ddau neu dri aelod o'r cyhoedd yn bresennol fel arfer. Nododd y Cynghorwyr Cowie a Hughes mai anaml y ceid cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir, gyda phresenoldeb y cyhoedd yn ymwneud yn uniongyrchol, fel arfer, â materion penodedig, yn enwedig y rheiny a ystyrir gan y Pwyllgor Cynllunio.

Roedd y Dirprwy Swyddog Monitro yn bositif ynglŷn â datblygu cysylltiadau â chynghorau tref a chymuned ac fe awgrymodd y pwyllgor y bydden nhw'n fodlon ymweld â'r cynghorau cymuned eraill yn yr ardal leol pe byddid yn darparu rhestr lawn o gyfarfodydd a manylion cyswllt y clercod perthnasol. Cafodd Aelodau eu hatgoffa o bwysigrwydd defnyddio eu disgresiwn pe bydden nhw'n dyst i ddigwyddiadau a allai beri sialensiau cod ymddygiad mewn cyfarfodydd felly.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro wrth y pwyllgor fod dyfynbrisiau'n cael eu derbyn am hyfforddiant mewn sgiliau cadeirio i'w rhoi ar gael i aelodau cynghorau tref a chymuned. Fe groesawyd hynny gan y pwyllgor ac fe bwysleisiwyd pwysigrwydd hyfforddiant i godi safonau mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD***

*i) nodi'r adborth a gafwyd o gyfarfodydd diweddar;*

*ii) bod rhestr o holl gyfarfodydd cynghorau tref a chymuned ar gyfer y flwyddyn galendr a manylion cyswllt clercod pob cyngor tref a chymuned, i'w cylchredeg i aelodau'r pwyllgor.*

## 6 HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad (a gylchredwyd cyn y cyfarfod) a oedd yn rhoi trosolwg o'r hyfforddiant a gyflenwyd i gynghorau sir, tref a chymuned ar y Cod Ymddygiad ers yr etholiadau lleol ym Mai 2012. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi pwysleisio o'r blaen bwysigrwydd darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a hygyrch ar y Cod Ymddygiad ac roedd y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro wedi trefnu digwyddiadau i gyflenwi hyfforddiant mewn nifer o leoliadau, yn ystod y dydd a chyda'r nos.

Nododd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cod Ymddygiad wedi ei ddiwygio i wneud yr hyfforddiant hwn yn orfodol i Gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych ac o'r 47 o gynghorwyr a etholwyd y mis Mai diwethaf, roedd 45 wedi mynychu o leiaf un o'r sesiynau hyfforddi. Roedd rhai o'r cynghorau tref a chymuned wedi penderfynu hefyd gwneud yr hyfforddiant yn orfodol ac roedd 99 o'r 349 o gynghorwyr tref a chymuned cymwys wedi mynychu sesiynau hyfforddi. Fe ystyriwyd y lefel presenoldeb yma'n eithaf da o'i gymharu â gweddill Cymru, ond cytunai'r Pwyllgor y dylid fforio cyfleoedd i wella presenoldeb.

Nodwyd nad oedd yr ystadegau'n cynnwys hyfforddiant a ddarparwyd yn annibynnol gan glercod cynghorau tref a chymuned, drwy Un Llais Cymru - corff cynrychioliadol cenedlaethol cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, na chan Gymdeithas Cynghorau Tref a Chymunedau Mwy Gogledd Cymru. Gofynnodd y pwyllgor a ellid darparu'r ffigurau hyn yn eu cyfarfod nesaf fel y gellid sefydlu darlun llawnach. Roedd y Cynghorydd Jones wedi bod yn yr hyfforddiant a gynigiwyd gan Un Llais Cymru a dywedodd ei fod yn dda iawn. Ychwanegodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod yr hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru'n debyg i hwnnw a gynigir gan Sir Ddinbych ac roedd wedi cael derbyniad da, ond nododd nad oedd swyddog cyfreithiol cymwysedig yn cyflenwi eu hyfforddiant nhw bob amser.

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Dirprwy Swyddog Monitro ysgrifennu at glercod cynghorau tref a chymuned ar ran y Pwyllgor Safonau i gynnig atgoffâd o werth ac argaeledd yr hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor.

Trafodwyd y disgwyliad y byddai sesiynau hyfforddi wedi eu recordio ar fideo'n cael eu darparu i gynghorau tref a chymuned fel opsiwn i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn yr hyfforddiant ond cytunodd y pwyllgor na fyddai hyn yn foddhaol ac yr ystyrir bod digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb yn llawer mwy effeithiol.

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchion i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro am eu gwaith caled yn datblygu ac yn cyflenwi'r rhaglen hyfforddi a mynegodd werthfawrogiad y Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau'n*

*i) nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn cyflenwi hyfforddiant y Cod Ymddygiad;*

*ii) cytuno y dylid rhoi sesiynau hyfforddi pellach ar y Cod Ymddygiad ar gael i gynghorwyr sir (yn cynnwys aelodau cyfetholedig), gyda neges glir i'w hanfon at y rheiny sydd ddim wedi mynychu hyfforddiant hyd yma, yn eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau;*

*iii) cytuno i ysgrifennu at Un Llais Cymru'n gofyn am fanylion presenoldeb cynghorwyr sir a chymuned Sir Ddinbych yn eu sesiynau hyfforddi;*

*iv) cytuno i ysgrifennu at glercod y cynghorau tref a chymuned yn Sir Ddinbych i atgoffa cynghorwyr o argaeledd hyfforddiant a phwysigrwydd yr hyfforddiant i gynnal trefn lywodraethol gadarn.*

## 7 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Rhoddodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Ionawr 7fed, lle'r oedd hi ynghyd â'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn bresennol.

Esboniodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod rhan gyntaf y cyfarfod wedi canolbwyntio ar ddarpariaeth llywodraethu a chyngor moesegol ar gyfer cynghorau tref a chymuned gan awdurdodau lleol. Mynegwyd nad oedd awdurdod swyddogion monitro awdurdod lleol yn ymestyn i roi cyngor cyfreithiol i gynghorau tref a chymuned, ond bod swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig arweiniad anffurfiol ar faterion a oedd yn ymwneud â gorchmynion sefydlog a gweithdrefnau yn rhesymol reolaidd. Fe ystyrid hyn yn ffordd bositif o ddatblygu cysylltiadau â chynghorau cymuned ac fe groesawyd y cyngor, felly'r oedd y Swyddog Monitro'n awyddus i hyn barhau. Cadarnhaodd y Cynghorydd Bill Cowie fod ansawdd y cyngor a roddwyd i Gyngor Dinesig Llanelwy'n dda iawn. Fe gydnabyddir hefyd fod Pwyllgor Safonau'r Cyngor â rôl effeithiol yn hyrwyddo moeseg yng ngwaith y cynghorau sir, tref a chymuned.

Yna fe dderbyniodd y fforwm gyflwyniad gan Dilys Phillips, Swyddog monitro Cyngor Gwynedd, lle'r esboniodd arwyddocâd penderfyniad Calver v Panel Dyfarnu Cymru [2012] i Bwyllgorau Safonau gyda dehongli gofynion y Cod Ymddygiad yng nghyd-destun yr hawl i ryddid mynegiant, a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Dywedwyd wrth y fforwm fod yr Ombwdsmon wedi codi trothwy sylw derbyniol wrth ystyried rhinweddau cychwyn ymchwiliad i gwynion a wneid rhwng aelodau.

Hysbyswyd y pwyllgor y cynhelir Cynhadledd Safonau Cymru 2013 ar Ebrill 19eg yn Venue Cymru yn Llandudno, a byddai'n cynnwys nifer o weithdai ar faterion fel protocolau hunanreoleiddio, ac fe fyddai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Peter Tyndall yn bresennol. Fe fyddai lle i bedwar cynrychiolydd o bob Pwyllgor Safonau drwy Gymru a chytunodd y pwyllgor i'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Cynghorydd David Jones fod yn bresennol ac y byddid yn cysylltu â Mrs Paula White i weld a oedd ganddi hi ddiddordeb.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi awgrymu i'r fforwm y gellid fforio opsiynau i godi proffil Cynhadledd Safonau Cymru, fel gwahodd pobl uwch yng ngwleidyddiaeth Cymru i'r gynhadledd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau'n*

> *i) nodi'r datblygiadau a adroddwyd o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru;*
>
> *ii) enwebu'r Cynghorydd David Jones, y Parchedig Wayne Roberts, Mr Ian Trigger a Mrs Paula White i fynd i Gynhadledd Safonau Cymru 2013, yn amodol ar i Mrs Paula White gadarnhau ei hargaeledd.*

## 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd Aelodau fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu am 10.00 a.m. ar ddydd Gwener, Chwefror 22ain 2013, yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**9 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad cyfrinachol, a baratowyd gan y Swyddog Monitro ac a gylchredwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn rhoi trosolwg o gwynion a roddwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn aelodau ers Ebrill 1af 2012. Ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau ers cyflwyno'r adroddiad diweddaru blaenorol i gyfarfod y Pwyllgor Safonau ac fe drafododd y pwyllgor y ffactorau a oedd yn achosi'r oedi gydag un achos.

Adroddodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod yna duedd ar i lawr yn nifer yr achosion cyfredol, gyda 3 achos yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i lawr o oddeutu 20-30 ar yr un adeg y llynedd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd hi'n arferol i ymchwiliadau gymryd dros 12 mis, ac esboniodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y swm mawr o waith sy'n angenrheidiol ar gyfer pob ymchwiliad wedi creu ôl-groniad yr oedd yr Ombwdsmon wedi cydnabod bod angen delio ag o.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r adroddiad*

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu presenoldeb.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Eitem Agenda Rhif:**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **DYDDIAD:** | **22 Chwefror 2013** |
| **PWNC:** | **Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Cyflwyno adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau gyda manylion yr hyfforddiant y bwriedir ei ddarparu i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion.

## 2. CEFNDIR

Mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi pwysleisio'r manteision o ddarparu hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion, fel rhan o batrwm cyffredinol o godi safonau moesegol ymysg aelodau etholedig.  Bydd sgiliau Cadeirio da hefyd yn cyfrannu at gymryd penderfyniadau yn effeithiol ac yn gyfreithiol sy'n amlwg o fudd i ddemocratiaeth leol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion yr hyfforddiant i'r aelodau.  Mae'n cael ei ddarparu gan hyfforddwr allanol sydd wedi'i argymell i'r Cyngor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.  Mae manylion yr agenda ynghlwm fel Atodiad 1.

Bwriedir cynnal yr hyfforddiant ar 16 Mai 2013 ac ysgrifennwyd at holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned i gael enwau'r rhai a fydd yn bresennol.  Oherwydd y gost i'r Cyngor, codir ffi o £30 y pen i dalu'r costau hynny.  Disgwylir y bydd llawer o ofyn am le a'r bwriad yw cyfyngu lleoedd i ddau o bob Cyngor, sef y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion, presennol neu ddarpar.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Fod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn yr hyfforddiant.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# GWEITHDY SGILIAU CADEIRIO



**Dydd Iau 16 Mai 2013**
**10am hyd at 1pm**

**Te / coffi / cofrestru 9.45am**

**Lleoliad: Cyngor Sir Ddinbych**
**Siambr y Cyngor**
**Neuadd y Sir**
**Ffordd Wynnstay**
**Rhuthun**
**LL15 1YN**

**At sylw:** Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned

**Nodau:** Ystyried rôl y Cadeirydd a'r sgiliau angenrheidiol i wneud cyfarfodydd yn effeithiol.

**Cynnwys y Gweithdy:**

- Y pwysigrwydd o gadeirio'n effeithiol.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd a'r angen am amcanion clir.
- Sut mae swyddogaeth ac arddull y Cadeirydd yn amrywio gyda'r math o gyfarfod. Er enghraifft, cyfarfodydd a phwyllgorau ffurfiol y cyngor;

cyfarfodydd partneriaeth, gweithgorau a chyfarfodydd cyhoeddus.

- Problemau mewn cyfarfodydd a sut y gallwch ymdrin â nhw.
- Swyddogaeth y Cadeirydd mewn cadw rheolaeth a thrafodaethau cytbwys.
- Adeiladu penderfyniad.
- Trefn cyfarfodydd ac egluro'r jargon.
- Defnyddir ymarferion a grwpiau trafod ymarferol i ddangos pwyntiau dysgu.

**Hyrwyddwr y Gweithdy:** Julia Wright

Yn Gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Sefydliad Cyflogwyr Taleithiol y De Orllewin, sefydlodd Julia ei hymgynghoriaeth hyfforddi ym mis Chwefror 2001. Cyn ymuno â'r Sefydliad Cyflogwyr, bu Julia'n gweithio i ddau Gyngor Sir ac Awdurdod Iechyd.

Mae Julia wedi arbenigo mewn datblygu aelodau etholedig ers 1987. Bu'n gweithio gyda'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (IdeA) i gynhyrchu pecyn hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion cynghorau lleol. Ers hynny mae wedi helpu Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol trwy ysgrifennu pecyn hyfforddi sgiliau craidd ac uwch becyn hyfforddi.

Mae Julia wedi bod yn gynghorydd plwyf ers Mai 2007. Ar hyn o bryd mae'n aelod o d m golygyddol cylchlythyr y plwyf.

**Adroddiad i:** **Y Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **22 Chwefror 2013**

**Awdur yr Adroddiad:** **Y Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r Aelodau am gynnwys llythyr oddi wrth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch y newidiadau i'r fframwaith foesegol a gofyn am sylwadau'r Aelodau ynghylch rhai o'r cynigion.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol ynghylch newidiadau i rai agweddau o fframwaith foesegol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r llythyr ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

2.2 Yn ei lythyr mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y materion canlynol:

a) datrys mân gwynion yn lleol ynghylch ymddygiad aelodau;

b) terfyn gwirfoddol ar indemniadau a roddir i aelodau;

c) dileu paragraff 10(2)(b) y Côd Ymddygiad;

d) effaith dyfarniad Calver;

e) cwynion blinderus, maleisus neu wamal o dan y Côd Ymddygiad;

f) y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau;

g) cyhoeddi diddordebau aelodau ar lein.

2.3 <u>Atebion Lleol</u>

Mae'r Ombwdsmon wedi gwneud yn glir ei fod yn dymuno gweld gweithdrefnau datrys lleol wedi'u sefydlu ledled Cymru er mwyn cyflynu'r broses o ymdrin â mân gwynion gan aelodau yn erbyn aelodau eraill. Y pryder yw y byddai gofyn i swyddfa'r Ombwdsmon ymdrin â'r holl gwynion yn arwain at oedi a fyddai'n gwaethygu'r sefyllfa rhwng aelodau os gellir datrys yn gyflym a syml yn lleol.

Ymhellach, bydd oedi difrifol i ymchwiliad i faterion mwy difrifol os bydd yn rhaid cyfeirio'r holl gwynion at yr Ombwdsmon.

2.4 Mae nifer o awdurdodau yng Nghymru yn bryderus nad yw datrys yn lleol yn briodol ac y byddai hyder y cyhoedd a'r aelodau yn y broses o ymdrin â chwynion yn cael ei danseilio os gwelir fod cwynion yn cael eu trin yn fewnol a heb eu harchwilio'n allanol ac yn annibynnol. Un cymhlethdod arall yw bod y Côd yn gofyn i aelodau hysbysu'r Ombwdsmon os bydd y Côd yn cael ei dorri, yn wir mae peidio â gwneud hynny ynddo'i hunan yn torri'r Côd. Mae'r Gweinidog yn bwriadu dileu hynny o'r Côd, er yn ymarferol mae'r Ombwdsmon eisoes wedi dangos na fyddai'n ystyried y byddai peidio â'i hysbysu yn torri'r Côd pe byddai'r pryder eisoes wedi'i gyfeirio i'w ddatrys yn lleol.

2.5 Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu dull o ddatrys yn lleol gwynion sy'n cael eu gwneud gan un aelod yn erbyn aelod arall ynghylch materion cymharol ddibwys, neu, fel eu gelwir, rhai lefel is-drothwy, hynny yw, cwynion y mae'r Ombwdsmon yn annhebyg o ymchwilio iddyn nhw.

2.6 <u>Terfyn Gwirfoddol ar Indemniadau</u>

O dan y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006, mae gan awdurdodau lleol hawl, ond nid oes raid, ddarparu indemniad i aelodau mewn perthynas â chostau cyfreithiol amddiffyn unrhyw achosion sy'n cael eu dwyn yn eu herbyn, sy'n codi o'u dyletswyddau neu eu gwaith fel aelodau. Mae hynny'n cynnwys y pŵer i roi indemniad i aelodau mewn perthynas â chostau o amddiffyn eu hunain yn erbyn honiadau o dorri'r côd ymddygiad. Mae'r Gorchymyn yn darparu ymhellach, os ceir aelod yn euog, neu os yw'n cyfaddef ei fod wedi torri'r Côd Ymddygiad, a'i fod ef neu hi yn cael cosb ddisgyblaeth o ganlyniad, yna bydd yn rhaid i'r aelod ad-dalu costau amddiffyn yr achos.

2.7 Mae peth pryder wedi codi ynghylch lefel yr indemniadau y mae rhai aelodau wedi'u derbyn mewn perthynas ag achosion o flaen y Pwyllgorau Safonau a'r Panelu Dyfarnu. Mae'r Ombwdsmon wedi mynegi'r farn y byddai'n barod i gytuno i derfyn gwirfoddol ar gostau cyfreithiol mewn materion o'r fath. Byddai hefyd yn cytuno na fyddai'n gwario mwy ar gostau cyfreithiol unrhyw achos unigol na'r terfyn a gytunwyd. I ddechrau awgrymodd yr Ombwdsmon £10,000. Yn dilyn, ar ôl ymgynghori ymhellach gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill, awgrymwyd ffigwr o £20,000.

2.8 Nid yw'r bwriad hwn yn gosod unrhyw gyfrifoldeb ar awdurdod i ddarparu indemniad, dim ond yn cadarnhau, os yw indemniad felly'n cael ei ddarparu, na ddylai fod yn fwy na £20,000.

2.9 Y ffordd y gall aelod ofyn am indemniad yn Sir Ddinbych yw trwy gyflwyno cais i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig i ystyried a ddylid rhoi indemniad ai peidio, ac os dylid, hyd at ba swm. Gofynnir i'r Aelodau ystyried a ddylid cyfyngu ar hynny ymhellach a gosod terfyn o £20,000 ar unrhyw indemniad.

2.10 <u>Paragraff 10(2)(b) Côd Ymddygiad</u>

Mae'r paragraff hwn o'r Côd yn darparu fod yn rhaid i aelodau eu hunain ystyried a oes ganddynt ddiddordeb personol mewn unrhyw fater lle y gallai aelod o'r cyhoedd feddwl, yn rhesymol, y byddai gwrthdaro'n codi rhwng eu rôl mewn cymryd penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran yr awdurdod yn ei gyfanrwydd a'u rôl mewn cynrychioli diddordebau etholwyr yn eu wardiau neu eu rhanbarthau etholiadol. Mae'r rhan hwn o'r côd wedi ennyn cryn drafodaeth. Mae Swyddogion Monitro wedi mynegi pryder yn gyson y gallai dehongli'r paragraff yn llythrennol arwain at ganlyniadau anfwriadol. Byddai'n rhaid i aelod, yn eistedd mewn Cyngor llawn, ac yn bwriadu pleidleisio ar fater ynghylch yr awdurdod yn ei gyfanrwydd a'r mater hwnnw'n gwrthdaro gyda diddordebau'i etholwyr, ddatgan diddordeb a allai, mewn rhai amgylchiadau, ystyried fod hynny'n niweidiol ac yn ei eithrio o'r cyfarfod. Mae hynny i'w weld yn groes i swyddogaeth aelod o gynrychioli diddordebau'i etholwyr.

2.11 Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi o'r blaen mai bwriad y paragraff hwn oedd er mwyn gallu ymdrin â sefyllfaoedd pan fyddai aelodau unigol yn cymryd penderfyniadau dirprwyedig ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r iaith erioed wedi'i newid i ddangos hyn yn glir. Erbyn hyn, mae'r Gweinidog yn cynnig dileu'r paragraff yn llwyr ar y sail fod y Côd yn dal i ofyn i aelodau gymryd penderfyniadau'n wrthrychol.

2.12 <u>Dyfarniad Calver</u>

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiad yn ddiweddar ar ganfyddiadau'r Uchel Lys yn yr achos yma. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i swyddogion ystyried a oes angen diwygio'r Côd ai peidio, yng ngoleuni'r dyfarniad hwn.

2.13 <u>Cwynion blinderus, maleisis neu wamal</u>

Mae'r Ombwdsmon wedi mynegi pryder ei fod, yn ddiweddar, yn derbyn nifer fawr o gwynion o'r fath a'u bod yn tagu'r broses o ymdrin â chwynion sy'n haeddu mwy

o sylw.  Mae’r Gweinidog wedi gofyn i hyn cael rhywfaint o flaenoriaeth mewn hyfforddiant ar y Côd yn y dyfodol.  Mae hwn yn bwnc sy’n cael ei gynnwys mewn hyfforddiant sy’n cael ei roi i aelodau Cynghorau Sir a Chymuned Sir Ddinbych.

2.14 Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r llawer mwy o aelodau etholedig yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd nifer o achosion o aelodau'n torri'r Côd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Yn ei ganllawiau diweddaraf, mae'r Ombwdsmon yn awyddus i dynnu sylw at beryglon ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Cyfeirir at y cyfryngau cymdeithasol mewn sawl rhan o'r canllawiau. Mae hon yn thema sy'n cael ei phwysleisio yn yr hyfforddiant a roir yn Sir Ddinbych.

2.15 Cofrestr o Ddiddordebau

Mae Deddf Llywodraeth Leol yn darparu yn Adran 81 fod yn rhaid i awdurdod lleol gadw cofrestr o ddiddordebau aelodau a bod yn rhaid i'r gofrestr honno fod ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar adegau rhesymol. Mae'r Gweinidog yn awyddus ei gwneud hyd yn oed yn haws i'r cyhoedd ei gweld trwy roi manylion diddordebau'r aelodau ar gael ar lein trwy wefannau'r Cyngor. Mae'r Gweinidog wedi gofyn am sylwadau ynghylch hyn cyn iddo benderfynu a ddylid diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sy'n cael ei ystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd.

**3 ARGYMHELLION**

3.1 Fod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Fod yr Aelodau'n ystyried ymateb y Pwyllgor i lythyr y Gweinidog.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Local Government and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/CS/0102/13

To:
Leaders, County and County Borough Councils

Chairs, Fire and Rescue Authorities

Chairs, National Park Authorities

15th January 2013

**LOCAL GOVERNMENT ETHICAL FRAMEWORK**

I am writing to follow up aspects of last year's 'Promoting Local Democracy' White Paper covering matters relating to the operation of the ethical framework established under the Local Government 2000 ("the 2000 Act").

The 'Programme for Government', published in September 2011, included a commitment to review the process for making a complaint under the local government member code of conduct to ensure that it is used only for the purpose for which it was intended.

Last year's White Paper conveyed our view that the current framework in Wales, founded upon a common set of guiding principles and a statutory model code of conduct, provides an appropriate balance between guiding members on standards of conduct and giving reassurance to the public that misconduct will be dealt with consistently and appropriately. However, I believe that there is scope for a more local approach to the resolution of low-level complaints, without immediate resort to the full and potentially costly investigatory role of the Public Services Ombudsman for Wales, in some circumstances.

With this in mind, the White Paper welcomed discussions that had already taken place on the voluntary adoption by local authorities of a common, national approach to informal local processes for dealing with member-on-member and officer-on-member complaints. The White Paper indicated that the Welsh Government wished to see such processes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

implemented by all county and county borough councils, national park authorities and fire and rescue authorities as soon as practicable following last year's local elections.

The White Paper also welcomed discussions that have taken place on the introduction of a voluntary cap of £20,000 on the level of indemnity offered by authorities to members subject to misconduct proceedings under the 2000 Act. Authorities powers to provide indemnities are derived from the 'Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Order 2006'. These powers would enable them to set such a limit and, again, the White Paper indicated that the Welsh Government wished to see this implemented soon after last year's elections.

I understand that some authorities have responded positively to these proposals. However, I am concerned that perhaps not all authorities have made progress and, through this letter, I want to impress upon those who have yet to do so the importance that I place on taking this forward.

In order that I have a complete picture of the current position across Wales, I ask that you report back to me on what steps your authority has taken, or plans to take (with timescales), to introduce a local resolution process and to adopt the voluntary cap on indemnities for member code of conduct proceedings. This information should be sent by email by the end of February to: CorrespondenceMail-CS@Wales.GSI.Gov.UK.

To facilitate the introduction of local resolution processes, I intend to remove the obligation on members contained in paragraph 6(1)(c) of the model code of conduct to report potential breaches of the code to the Ombudsman. The Ombudsman has issued guidance on how he will deal with low-level alleged breaches made to his office and this obligation need not, therefore, give cause for delay in the introduction of local resolution processes where this has yet to be done.

In addition to removing the obligation to report breaches to the Ombudsman, I intend to address concerns arising from the interpretation of paragraph 10(2)(b) by removing this from the model code. Members taking decisions, whether acting collectively or individually, would still be required by paragraph 8 of the code to act objectively and in the public interest when doing so. I consider, therefore, that paragraph 10(2)(b) can be removed without detriment to the code.

Also in relation to the code, you will no doubt be aware of the High Court ruling last year – *'R (Calver) v the Adjudication Panel for Wales'* - in relation to the requirement in paragraph 4(b) of the code for members to show respect and consideration for others. The Ombudsman has revised his guidance to take account of the ruling, but I have also asked my officials to consider whether any modification of the code is necessary.

Whilst writing, I note with concern that the Ombudsman has again found it necessary to make reference in his latest annual report to the number of member on member complaints which might be regarded as vexatious. Paragraph 6(1)(d) of the code could not be clearer in stipulating that members must not make vexatious, malicious or frivolous complaints against other members or anyone who works for their authority. If unchecked, such actions have potential to clog up the system and divert resources from more important matters. I would ask that this issue is given some prominence when refresher training on the code is arranged for members.

Also, you will not have failed to have seen recent reporting in the media of unfortunate events arising from the inappropriate use of social media. The Ombudsman's guidance on the code makes clear the circumstances in which use of electronic and social media is covered by the code. This is a continuingly evolving area and again it is timely, I believe, to

encourage members to avail themselves of the training which authorities provide on the use of social media and the potential pitfalls to be avoided.

Any observations or comments that you may wish to make in relation to these or other aspects of the code when responding as requested above would be most welcome.

Finally, I would like to take this opportunity to mention an issue that has been raised with me recently regarding the publication of registers of members' interests maintained under section 81 of the 2000 Act. At present, registers must be available at an office of the authority for inspection by members of the public at all reasonable hours. However, citizens increasingly expect to be able to access information about councils and their elected members via the internet. Consequently, I have sympathy with the view expressed to me that authorities should be required to additionally publish these registers on their websites to facilitate access and to improve transparency. I am, therefore, minded to bring forward an amendment to the Local Government (Democracy) (Wales) Bill to give effect to this. There is a brief window of opportunity for bringing forward such an amendment but, before doing so, I would welcome any views that you may have on this.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem Agenda 9

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag